# Da chi wedi cael eich arestio

HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE




## Canllaw i’r ddalfa ar gyfer pobl ifanc

Yn gwneud Gogledd Cymru’r lle mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld yn y DU

# Pan ‘da chi’n cyrraedd gorsaf yr heddlu:

- Mi wnaiff y swyddogion ddweud wrth y person y tu ôl i’r ddesg pam eu bod wedi dod â chi i orsaf yr heddlu.
- Y person tu ôl i’r ddesg ydy Rhingyll y Ddalfa.
- Swydd Rhingyll y Ddalfa ydy gwneud yn siŵr bod rhywun yn edrych ar eich hôl tra eich bod chi yng ngorsaf yr heddlu.
- Mi wnaiff yr heddlu ofyn wrthoch chi am eich iechyd – mae’n bwysig eich bod yn rhoi gymaint o wybodaeth â phosib.
- Efallai cewch chi eich chwilio pan ‘da chi’n cyrraedd gorsaf yr heddlu.



# Yng ngorsaf yr heddlu:

- Mi gewch chi siarad efo cyfreithiwr (mae hyn yn rhad ac am ddim, a 'dydy'r cyfreithiwr ddim yn gweithio i'r heddlu)
- Mae help ar gael os 'da chi'n teimlo'n sâl neu wedi brifo
- Da chi mewn lle diogel. Os oes rhywbeth yn eich poeni, gallwch chi siarad efo rhywun
- Os 'da chi'n ferch, mi gewch chi ofyn i siarad efo aelod benywaidd o staff
- Mi wnaiff yr heddlu ddweud wrth eich rhiant neu eich gofalwr eich bod chi yng ngorsaf yr heddlu
- Os 'da chi ddim yn deall eich hawliau, mi gewch chi ofyn i swyddog heddlu



Mae'n debyg bydd unrhyw eitemau sydd gennych chi yn eich meddiant pan 'da chi'n cael eich arestio yn cael eu cymryd oddi wrthych chi.

Mi wnaiff yr heddlu gadw'r rhain yn ddiogel. Efallai cewch chi nhw'n ôl pan gewch chi eich rhyddhau, ond efallai gawn nhw eu cadw fel tystiolaeth.

**Mi wnaiff yr heddlu gysylltu efo oedolyn priodol i ddod i orsaf yr heddlu er mwyn bod efo chi cyn gynted â phosib. Mi wnaiff yr oedolyn priodol wneud yn siŵr eich bod yn iawn. Mi wnawn nhw aros efo chi tan i chi gael eich cyfweld, neu adael a dod yn ôl pan mae'r heddlu yn barod i'ch cyfweld. Gallent fod yn riant / nain / taid / gwarchodwr neu rhywun o'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid.**







Mae cyfreithiwr yn rhywun sy'n gwneud yn siŵr eich bod chi'n deall y geiriau cyfreithiol i gyd, ac hefyd yn gallu eich cynghori chi. Mae gennych chi hawl i siarad efo cyfreithiwr yn rhad ac am ddim.

# Pethau gall yr heddlu eu gwneud:

- Mesur eich taldra
- Cymryd eich llun
- Cymryd sampl o'ch DNA
- Sganio eich olion bysedd










# Yn y gell:




Os oes gennych chi unrhyw anghenion iechyd, neu'n cymryd moddion, mi ddylech chi ddweud wrth swyddog. Mi gewch chi ofyn i gael cawod ac i ymarfer corff, ac mi fydd cynnig o fwyd. Os oes gennych unrhyw anghenion crefyddol, mi wnaiff yr heddlu drio gwneud yn siŵr bod gennych chi bob dim 'da chi angen.

Mi gewch chi ofyn am lyfr neu bêl-droed neu bosau i'ch helpu chi i basio'r amser.

**Mi wnaiff rhingyll y ddalfa ddod i'ch gweld i wneud yn siŵr eich bod yn iawn a bod gennych chi bob dim 'da chi angen.**


Fydd yr heddlu ddim yn gwybod am ba hyd gewch chi'ch cadw yn y ddalfa – mae fel arfer tua 4-5 awr.



Gallai'r heddlu eich cadw yn y ddalfa am hyd at 24 awr – un dydd a nos gyfan.

## Y cyfweliad:

- Mi gewch chi siarad efo'ch cyfreithiwr cyn y cyfweliad ac mi gaiff y cyfreithiwr a'r oedolyn priodol fod yn y cyfweliad efo chi
- Efallai bydd dau swyddog heddlu yn y cyfweliad
- Os 'da chi'n ateb "dim i'w ddweud", mi wnaiff yr heddlu ofyn eu cwestiynau i gyd, p'run bynnag
- Mi gewch chi ofyn am egwyl os 'da chi eisiau



**Mi fyddwch yn mynd yn ôl i'ch cell tra bod yr heddlu yn gwneud penderfyniad – mi wnawn nhw drio gwneud hyn yn gyflym.**

# Beth gallai ddigwydd nesaf:

## RHYDDHAU

Os dydy'r archwiliad ddim wedi'i gyflawni, mi gewch chi eich rhyddhau, efallai gewch chi ddyddiad i ddod yn ôl i'r orsaf, a'r enw ar hwn ydy mechnïaeth (bail).

Efallai bydd gennych chi reolau i'w dilyn e.e. bod adref erbyn amser penodol, neu ddim yn cael mynd i fannau penodol.

Efallai wnewch chi glywed hyn yn cael ei alw'n mechnïaeth amodol (conditional bail) neu mechnïaeth ag amodau (bail conditions).
Os gewch chi eich cyhuddo, mi gewch chi ddyddiad i fynd i'r llys.

## REMANDIO

Mae'r heddlu wedi penderfynu eich cyhuddo o'r drosedd.

Efallai gewch chi rhywle i aros dros nos, neu, fel dewis olaf, eich cadw yn nalfa'r heddlu.

## DIM GWEITHREDIAD PELLACH

Mae'r heddlu wedi penderfynu peidio eich cyhuddo, a 'da chi'n rhydd i adael gorsaf yr heddlu.

## GADAEL GORSAF YR HEDDLU:

Cyn i chi adael gorsaf yr heddlu, mi wnaiff y swyddog heddlu wneud yn siŵr eich bod yn ddiogel pan cewch chi eich rhyddhau. Mi gewch chi eich eiddo yn ôl (e.e. eich ffôn symudol a'ch waled), heblaw ei fod yn cael ei gadw ar gyfer tystiolaeth. Mi wnaiff swyddog yr heddlu a'ch oedolyn priodol drafod sut 'da chi am gyrraedd adre. Efallai bydd yr heddlu yn medru mynd â chi adref, neu mi wnawn nhw ofyn i riant / gofalwr ddod i'ch nôl chi.

**HEDDLU**
GOGLEDD CYMRU

NORTH WALES
**POLICE**



Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth neu gymorth wrth fynd drwy'r broses, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer eich ardal chi:

Gwynedd & Môn – 01248 679183

Conwy & Sir Ddinbych – 01492 577377

Sir y Fflint – 01352 701125

Wrecsam – 01978 298739

87103.